

ADNEWYDDU YSBRYD HUNANABERTH

Nodyn i'r siaradwr:

Helpwch bawb i weld mai ysbryd rhoddi a hunanaberth ydi ysbryd gwir Gristionogaeth. Anogwch nhw i'w harchwilio'u hunain i weld a ydi eu gwasanaeth nhw i Jehofah yn llwyr adlewyrchu'r ysbryd hwn. Dangoswch yn ymarferol sut y medran' nhw feithrin yr ysbryd hwn ynddynt eu hunain ac yn eu plant. Apeliwch atyn' nhw'n gynnes i efelychu'r miloedd eraill sydd heddiw'n gwir arddangos ysbryd hunanaberth

MAE'R BYD YN ANNOG HUNANFALDODI, NID HUNANABERTH (7 mun.)

Cynllunir popeth heddiw i apelio at yr hunan

Y syniad ydi cael yr hyn 'fedrwch chi tra medrwch chi; cael y mwyaf a'r gorau; 'fedrwch chi byth gael gormod Mae'r byd yn defnyddio ymadroddion fel: "Fe wnes i bethau fel 'roeddwn i eisiau," "Gofalwch am eich mantais eich hun," "Mynnwch gael yr hyn 'rydych chi ei eisiau 'nawr," "Mae'r diben yn cyfiawnhau'r modd," "Gwnewch fel y mynnoch chi"

Mae llawer o rieni yn esgeuluso'u plant, gan deimlo y "dylen' nhw fod yn rhydd i fyw eu bywydau eu hunain" (g89 3/22 5)

Beth ydi canlyniadau hunanfaldodi?

Anhapusrwydd, rhwystredigaeth, anfodlonrwydd, a thrueni

'Roedd yr Israeliaid yn esiampl o'r hyn sy'n digwydd i'r rhai hunanfaldodus

'Roedden' nhw'n grwgnach, yn cwyno, ac 'roedd "chwant arnynt" (Num 11:34)

Cyfrannodd hyn at anhapusrwydd a dod ag angau i lawer

'Dyw'r byd ddim wedi dysgu o hynny nac o brofiadau eraill hanes

Mae pobl yn gofyn: 'Pam bod yn hunanaberthol pan nad oes neb yn gofidio rhyw lawer a chymaint gan y byd modern i'w gynnig? Pam ymwadu â chi'ch hunan pan fo pobl ym mhobman yn gwneud yn hollol fel arall —bod yn ymwithgar a mynnu mwy a mwy iddynt eu hunain? Pam nad ceisio "ennill yr holl fyd" neu o leiaf gyfran dda ohono?" (Mc 8:36)

ANOGIR GWEISION DUW I FOD YN HUNANABERTHOL (12 mun.)

Câi'r Israeliaid fendithion ond iddynt aberthu'r gorau (Mal 1:14; 3:10)

'Roedd Iesu yn hunanaberthol yn gadael y nef (Phil 2:5-8)

Fe gafodd lawenydd mawr oherwydd hyn (Salm 40:8; Heb 12:2)

'Roedd yn llawn sêl dros wasanaeth Jehofah (Mc 1:32-39)

'Roedd Iesu bob amser yn aberthu ei les ei hun er mwyn boddhau Duw (In 5:30)

Anogodd Iesu ei ddisgyblion i fod yn hunanaberthol (Lc 9:23-25; w90 8/1 16)

Mae'r Beibl yn dangos eu bod nhw felly (Mth 4:20; 19:27)

Mae hyn yn golygu iddyn' nhw aberthu rhai pethau mewn bywyd er mwyn boddhau Duw yn llawnach a rhoi'r lle blaenaf i fuddiannau'r Deyrnas

Ym mha ffyrdd mae disgyblion Iesu yn gwneud hyn heddiw? (w86 6/15 12)

Aberthu'n safle yn y gymuned fusnes wrth gael ein 'nabod yn un o Dystion Jehofah

Rhoi ein hamser, y gellid ei ddefnyddio yn canlyn adloniant neu bethau materol, i'r cyfarfodydd a'r gwasanaeth

Ymuno â'r gwasanaeth amser llawn (Rhuf 12:1, 2; 2Tim 2:15)

Ymwrthod â rhai mathau o adloniant, cerddoriaeth, gyrfaeoddd bydol (g86 2/22 13-17)

Bod yn fodlon goddef ein carcharu (Act 5:29; w89 3/1 18; w89 6/15 27)

Bod yn barod i ufuddhau i Air Jehofah hyd at angau (Mth 10:28; yb89 119-23; yb88 151-4)

Cael rhan gyson yn y weinidogaeth (w92 2/1 27-8)

'YDYCH CHI'N BERSON HUNANABERTHOL? (19 mun.)

Yn wyneb anogaeth y Beibl i Gristionogion fod yn hunanaberthol, gofynnwch i chi eich hun: 'Ydw i'n berson hunanaberthol?'

Mae gorchymyn Iesu i 'geisio'n gyntaf y Deyrnas' yn llawn cymaint o achos brys heddiw (Mth 6:33)

Mae esiamplau'r rhai a oddefodd galedi yn y 1930au a'r 1940au yn dangos fod ysbryd hunanaberthol ganddynt (Gall y siaradwr adrodd profiadau Ernest E. Beavor [w80 3/15 8-11], Ilse Unterdörfer [w79 11/1 8-14], neu eraill a restrir dan "*Life Stories of Jehovah's Witnesses*" yn *Watch Tower Publications Index*)

Mae miloedd o genhadon a anfonwyd allan gan Ysgol Feibl Gilead y Watchtower wedi gadael eu teuluoedd a'u cartrefi

Wedi aberthu'r hyn a elwir yn fywyd normal er mwyn pregethu'r newydd da i derfynau'r ddaear (Mc 10:29, 30; Heb 6:10)

Mae miloedd eraill wedi gwasanaethu'n arloeswyr yn eu mamwledydd

Mae llawer yn fodlon gwasanaethu yng ngwahanol rannau'r wlad, yn sefydlu ac adeiladu cynulleidfaoedd

Mae llawer wedi gwasanaethu yng nghartrefi Bethel ar hyd a lled y ddaear, yn darparu llenyddiaeth a chefnogaeth ar gyfer y gwaith yn y maes

Yn hyn oll, gwelwn gyflawni Salm 110:3 (*BCL*), sy'n rhoi disgrifiad brwd o'r ysbryd hunanaberthol (Darllen) (*w84 5/1 17-22*)

Oherwydd yr ysbryd hunanaberthol hwn, 'rydym yn gweld cyflawni Mathew 24:14, Mathew 28:19, 20, ac Actau 1:8

O'r ysgrythurau hyn mae'n amlwg fod Gair Duw yn comisiynu holl weision ymgysgredig Duw i weithredu'n llawn yng ngwasanaeth y Deyrnas (*w86 1/15 13*)

'Ydych chi'n gweithredu'n llawn?

Os mai rhiant ydych chi, 'ydych chi'n argraffu ar feddwl eich plant yr awydd i wasanaethu'n llawn amser? (Deut 6:6, 7)

Neu a ydych chi a'ch teulu yn tueddu mwy at wneud gwell bywoliaeth ac un mwy cysurus 'nawr?

Rhybuddiodd Iesu rhag "hudoliaeth golud" (Mth 13:22)

Mae i gyfoeth materol ei gyfyngiadau; mae e'n methu pan fo fwya'r angen; 'fedr e ddim sicrhau iechyd na rhwystro marwolaeth

'Dyw bywyd ddim yn dibynnu ar eiddo materol (Lc 12:15-21; *w86 7/15 31*)

MEITHRINWCH YSBRYD HUNANABERTH (5 mun.)

'Ydych chi'n dangos ysbryd hunanaberthol drwy wasanaethu Jehofah mor llwyr ag y mae eich amgylchiadau yn caniatáu?

'Fedrwch chi roi rhagor o amser i ddarllen ac astudio personol ar y Beibl?

'Fyddwch chi'n astudio'n gyson?

'Ydi hi'n bosib' i chi dreulio rhagor o amser yng ngwaith y Deyrnas?

Faint o oriau fyddwch chi'n eu rhoi i adloniant neu i edrych ar y teledu?

'Ydi hyn yn cydbwysu'n addas â gwaith y Deyrnas? (Eff 5:15, 16)

Ai rhiant ydych chi? Yr adeg gorau i'ch plant ddysgu ysbryd hunanaberth ydi yn ystod plentyndod (2Tim 3:14, 15)

Rhowch waith iddyn' nhw i'w wneud; gadewch iddyn' nhw ddysgu nad ydi bywyd yn hawdd (*g90 9/8 6*)

Rhowch amser i'w hyfforddi nhw, astudiwch gyda nhw, disgyblwch nhw (Eff 6:4; Heb 12:11)

'Ydych chi'n henuriad neu'n weinidog amser llawn? 'Oes 'na rywbeth y gallech chwithau ei wneud?

'Fedrwch chi wella ansawdd eich gwasanaeth?

'Fedrwch chi wneud gwell Cristion ohonoch eich hun? (Gal 5:22, 23)

MAE CWRS HUNANABERTH YN DOD Â HAPUSRWYDD MWY (2 mun.)

Gweithiwch i sicrhau'r golud ysbrydol nad yw byth yn methu (Mth 6:20; *w89 7/15 13-14*)

Dangosodd yr Apostol Paul ragoriaeth golud ysbrydol (1Tim 6:17-19; *w88 10/15 21; w86 6/15 5-6*)

Byddwch yn fodlon â'r hyn sydd gennych, a gwasanaethu Jehofah â llawenydd (Act 20:35)

(Glynwch yn glòs wrth y deunydd a amlinellwyd, a chadw at yr amser a nodwyd ar gyfer pob adran. 'Does dim angen darllen pob testun a grybwyllir. 'Does dim rhaid crybwyll y deunydd ffynhonnell mewn cromfachau)